



# Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 7 Ionawr 2020 am 6.00yh  
yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, Aberteifi

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 7 January 2020 at 6.00pm  
at the 36 Pendre Conference Room, Cardigan

**Presennol/Present—Y Cyngorwyr/Councillors Shan Williams (yn y gadair/in the chair),**

John Adams-Lewis, Clive Davies, Elaine Evans, Graham Evans, Debra Griffiths, Richard Jones, Wyn Jones, Siân Maehrlein, Catrin Miles, Steffan Morgan, Yvonne O'Neill, Trystan Phillips, Morvenna Richards a Mr Wynford Jones (*clerc/clerk*).

## 1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

**Croesawodd y Maer, y Cyng. Shan Williams, bawb i gyfarfod cyntaf 2020 a dymunodd flwyddyn newydd dda i'r cyngorwyr, aelod o'r wasg a'r cyfieithydd ar y pryd.**

**Llongyfarchodd Mrs Gwendoline Jeremiah, Maeshenffordd, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 100 oed; cytunwyd anfon carden iddi oddi wrth y cyngor. Yn yr un modd, dymunwyd yn dda i'r Cyng. Trystan Phillips wrth iddo ddechrau ar bennod newydd yn ei yrfa fel prifathro Ysgol Gynradd Gymunedol Penyparc. Cydymdeimlwyd â phriod a merched y diweddar Mr Wyn Lewis yn eu profedigaeth sydyn; roedd Wyn yn adnabyddus fel milfeddyg a sylfaenydd, cyn-arweinydd ac aelod o gôr llwyddiannus Côr Undebol Ar Ôl Tri; bu ei gyfraniad i'r ardal eang yn chwedlonol. Llongyfarchodd y cyn-Faer, y Cyng. John Adams-Lewis, Leah, merch y Maer a'i Chydwydd, Mr Richard Williams, ar ei llwyddiant academiaidd yn ddiweddar.**

The Mayor, Cllr Shan Williams, welcomed everyone to the first meeting of 2020, including the member of the local press and the simultaneous translator, and wished all a happy new year. She congratulated Mrs Gwendoline Jeremiah, Maeshenffordd, on celebrating her 100<sup>th</sup> birthday recently; it was agreed to forward a card to Mrs Jeremiah from the council. The best wishes of members were forwarded to Cllr Trystan Phillips as he commenced a new chapter in his profession as head teacher of Ysgol Gynradd Gymunedol Penyparc. The family of Mr Wyn Lewis were offered the condolences of the council; Mr Lewis, a retired veterinary surgeon and past conductor and member of the renowned local choir, Côr Undebol Ar Ôl Tri, passed away suddenly; the whole area is indebted to Wyn for his contribution to the success of the cultural and musical endeavours of the district. The past Mayor, Cllr John Adams-Lewis, congratulated Leah, the daughter of the Mayor and Consort, on her recent academic achievements.

## 2. Ymddiheuriadau / Apologies.

## 3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pherionol gan Gynghorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis	<i>Materion Cynllunio / Planning issues</i>
Y Cyng. / Cllr Clive Davies	<i>Eitem / Item 14(b)(i)</i>

## 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 3 Rhagfyr.

Confirmation of Minutes of 3 December Council Meeting.

**Cynigiwyd gan y Cyng. Elaine Evans ac eiliwyd gan y Cyng. Siân Maehrlein bod cofnodion cyfarfod 3 Rhagfyr yn gywir.**

Cllr Elaine Evans proposed that the 3 December council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Siân Maehrlein.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.**

**Tud. 1569, eitem 12 (Castell Aberteifi):** Mynegodd y Cyng. John Adams-Lewis ei anafodlonrwydd bod y cyngor yn ystyried gosod carreg goffa ar fedd Miss Barbara Woods ym Mynwent Aberteifi. Yn dilyn trafodaeth fer, cytunwyd diddymu'r awgrym.

Page 1569, item 12 (*Cardigan Castle*): Cllr John Adams-Lewis declared his disapproval at the council suggestion to place a stone to mark Miss Barbara Wood's grave in Cardigan Cemetery. After a short discussion, it was agreed to rescind the suggestion.

**6. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.**

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

**Dosbarthwyd Dyddiadur y Maer am fis Rhagfyr yn y cyfarfod.**

The Mayor's December Diary was distributed at the meeting.

**7. Cynllunio / Planning.**

Rhif y Cais / App. No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Sylwadau / Comments
A191003	9 William Street	Demolition, replacement and extension of existing kitchen/bathroom to rear of property.	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.</i> The council supports the application.

**8. (a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.**

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhif y Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
10/11/19	Litterpickers: <i>Gwaith ar stondinau'r Ffair</i> / For services provided to erect Cardigan Fair stalls, etc.	D13	4837	£120.00 (0.00)
26/12/19	Siemens: <i>Prydles y llungopiwr</i> / Lease of photocopier	A7	D/D	£150.00 (25.00)
1/1/20	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor</i> / Rent of Council Office ( <i>Rhagfyr</i> ). <i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd</i> /Rent of Conference Room <i>Cyfarfod y Cyngor</i> / Council Meeting (3/12/19) <i>Band Lydan (lonawr)</i> / Broadband (January)	A9 A9 A20	D/D 4838 4838	£250.00 (0.00) £25.00 (0.00) £20.00 (0.00)
1/1/20	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc</i> / Clerk's Salary ( <i>Rhag./Dec</i> )	A5	4839	£763.19 (0.00)
10/12/19	Llinos Jones: <i>Cyfieithu ar y pryd</i> / Simultaneous translation (3/12/19)	A18	4840	£70.80 (0.00)
9/12/19	Parc Piliau: <i>Toiledau symudol i Ffair Aberteifi</i> / Rental of 2 portable toilets for Cardigan Fair	D13	4841	£84.00 (14.00)
20/12/19	David Evans: <i>Ysgythru tarian siop Nadolig (2019)</i> . Engraving of Christmas shop window shield (2019)	B5	4842	£3.10 (0.00)
30/11/19	M. & E. Pearce: <i>Deunydd i'r goleuadau Nadolig</i> . Material for Christmas lights.	B1	4843	£79.82 (13.30)
12/12/19	J. Harries Electrical: <i>Deunydd y goleuadau Nadolig</i> . Material for Christmas lights	B1	4844	£196.56 (32.76)
11/12/19	Midshire: Hardware support charge	A17	4845	£46.20 (7.70)
18/12/19	BT: <i>Ffôn</i> / Telephone	A20	4846	£85.46 (14.24)
7/1/20	HMRC: PAYE £571.80, Class 1 NIC £97.20 <i>Hydref, Tachwedd, Rhagfyr</i> / October, November, December 2019	A16	4847	£571.80 (IT) + £97.20 (NIC) = £669.00 (0.00)
7/1/20	Telemat: <i>Cynnal yr e-bost ac adnewyddu enw parth</i> . Maintenance of e-mail and renewing zone address	A20	4848	£56.70 (9.45)
31/12/19	<i>Bachan Deche</i> / Handyperson ( <i>Rhagfyr / December</i> )	A19	4849	£132.00 (22.00)
7/1/20	<i>Y Dwrgi: Hysbyseb swyddi'r clerck a'r brysgyllwyr</i> / Advert for clerk and mace bearers	A10	4850	£10.00 (0.00)

**Cynigiodd y Cyng. Clive Davies bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Debra Griffiths.**

Cllr Clive Davies proposed that the bills be paid; this was seconded by Cllr Debra Griffiths.

**Derbyniadau/Receipts:**

11/11/19	Lloyds Bank: <i>Llog</i> / Interest	£1.78
18/11/19	<i>Clwb Rygbi Aberteifi</i> / Cardigan RFC (rent)	£650.00
28/12/19	Theatr Mwldan: <i>Hysbyseb</i> /Advert (Cardigan Map)	£25.00

**(b) Adroddiad Ariannol hyd at 31 Rhagfyr / Financial Report to 31 December 2019  
Mae'r adroddiad wedi ei flaenyrru ymlaen llaw i'r cynghorwyr.**

The report had been forwarded beforehand to all councillors.

**Cymeradwywyd bod y cyngor yn derbyn yr Adroddiad Ariannol chwarterol: Cynigiwyd gan y Cyng. Graham Evans; eiliwyd gan y Cyng. Yvonne O'Neill.**

The council approved the quarterly financial report: proposed by Cllr Graham Evans; seconded by Cllr Yvonne O'Neill.

**9. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.**

**(a) Y Cyng. Catrin Miles:**

- (i) **Bydd Stryd y Castell ar gau o 27/1/20 - 7/2/20 i wneud gwaith adolygiad.**

**(b) Y Cyng. Elaine Evans:**

- (i) **Gweler eitem 14(b).**

**(c) Y Cyng. John Adams-Lewis:**

- (i) **Mae'r Cyng. Adams-Lewis wedi trafod gyda Mr Simon Bray, swyddog goleuadau strydoedd y cyngor sir, ynglŷn â'r golau yn Lôn Cnwcydintir. Cadarnhaodd Mr Bray nad oedd y cyngor sir yn barod i fabwysiadu'r golau. Awgrymwyd anfon y manylion technegol ymlaen at y contractwyr (Western Power) cyn symud ymlaen.**
- (ii) **Mae Tai Ceredigion Cyf. wedi tynnu'r cais yn ôl dros dro ar ddymchwel garejis Maesglas oherwydd pryderon am y llifogydd.**
- (iii) **Mae goleuadau rheoli'r drafnidiaeth ar Ffordd Gwbert yn deillio o dwll yn y ffordd. Mae swyddogion y cyngor sir yn archwilio i mewn i rwystr yn y draeniau dŵr ger cyffordd Heol y Ferwig/Ffordd Gwbert.**
- (iv) **Mae angen cywiro'r datganiad yn y wasg leol gan y bydd y drafnidiaeth un-ffordd newydd yn teithio o Heol y Gogledd i mewn i stad Maes-yr-haf a Stryd Gerddi Napier.**

**(a) Cllr Catrin Miles:**

- (i) **Castle Street will be closed from 27/1/20 – 7/2/20 to carry out a mains inspection.**

**(b) Cllr Elaine Evans:**

- (i) **See item 14(b)**

**(c) Cllr John Adams-Lewis:**

- (i) **A discussion regarding the light column in Cnwcydintir Lane took place with Mr Simon Bray, street lights officer of the county council. Mr Bray confirmed that the county council would not be in a position to adopt the light as the road had not been adopted either. Further technical information is required by the contactor. It was recommended to forward all relevant details to Western Power.**
- (ii) **Tai Ceredigion Cyf. have withdrawn its application to deconstruct the Maesglas garages due to misgivings regarding potential flooding.**
- (iii) **The traffic controlling lights on the Gwbert Road are in place due to a sink-hole in the highway. County council personnel are presently inspecting a possible mains water blockage near the Ferwig Road/Gwbert Road junction.**
- (iv) **The proposed one-way system will run from North Road into Maes-yr-haf and Napier Gardens not as incorrectly reported in the local press.**

**10. Gohebiaeth / Correspondence.**

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
211	CSC / CCC (Alan Haird): <i>Diweddariad Cynlluniau Lle.</i> Update of Place Plans.	<i>Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 31 Rhagfyr.</i> Forwarded to all councillors on 31 December. <i>Dyweddodd y Cyng. Davies bod ymyrraeth yr Etholiad Cyffredinol wedi arafu'r broses.</i> Cllr Davies stated that the intrusion of the General Election had impeded progress.
212	CSC / CCC (Mererid Jones): <i>Gwasanaeth Casglu Gwastraff dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.</i> The waste collection service for Christmas and the New Year.	<i>Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 10 Rhagfyr ac maent wedi eu harddangos yn yr hysbysfwrdd.</i> Forwarded to all councillors on 10 December and also displayed in the notice board.

213	CSC / CCC (Sonia Davies): <i>Mae'r Gwarchodlu Cymreig wedi derbyn Ryddhad Sir Geredigion, felly cynhelir Seremoni a Gorymdaith ddydd Mercher, 24 Mehefin 2020 yn Aberteifi.</i> The Welsh Guards have been awarded the Freedom of the County of Ceredigion; a Ceremony and Parade will be held in Cardigan on 24 June, 2020	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 31 Rhagfyr.</i> Forwarded to all councillors on 31 December. <i>Roedd yr aelodau i gyd o blaid y seremoni.</i> All members were supportive of the ceremony.
214	CSC / CCC (Cathryn Morgan): <i>Cais i dalu £1,380 i gwmni Prestec am waith ychwanegol i'r Maes Sgrialu.</i> Application for Cardigan Town Council to pay £1,380 to Prestec for additional work in the Skateboard Park.	<i>Mae'r swm yma £530 yn fwy na chaniatawyd yn y gyllideb.</i> This sum exceeds the budget allowance by £530. The supportive work of Mrs Morgan was appreciated by members. Accordingly, Cllr Richard Jones proposed that the council pays the balance of £1,380 for the outstanding amount to Prestec for the work on the Skateboard Park. Cllr Yvonne O'Neill seconded the proposal.
215	CSC / CCC (Michael Smith): <i>Ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Cydraddoldeb Strategol: Ceredigion Teg a Chyfartal 2020-24.</i> Draft Strategic Equality Plan Consultation: A Fair and Equal Ceredigion 2020-24. Cllr Catrin Miles will attend the meeting and report back to council.	Plan is based on three main areas of evidence: 1. Mid and West Wales Equality Survey 2019. 2. Equality and Human Rights Commission's "Is Wales Fairer 2018?" report. 3. Our existing Strategic Equality Plan 2016-20. <i>Ymgynghoriad yn cau / Consultation closes: 29/1/20.</i>
216	CSC / CCC (Meleri Richards): <i>Strategaeth Economaidd Newydd i Geredigion (2020-2035).</i> Development of a New Ceredigion Economic Strategy (2020-35)	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 7 Ionawr.</i> Forwarded to all councillors on 7 January. <i>Ymgynghoriad tan / Consultation until 31/1/20</i>
217	CSC / CCC (Dylan Jones): <i>Ateb i gais y cyngor.</i> Response to the council's request to repair the fence in the Netpool area.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 7 Ionawr.</i> Forwarded to all councillors on 7 January. <i>Cytunwyd anfon llun o'r ffens ymlaen i'r cyngor sir.</i> It was agreed to forward a photograph of the damaged fence to the county council.
218	<i>Llywodraeth Cymru: Ymateb i lythyr y cyngor yn gofyn am wybodaeth ynglŷn â chynllun atal llifogydd.</i> Welsh Government: The response to the council letter for action regarding the flood alleviation scheme for Cardigan.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 31 Rhagfyr.</i> Forwarded to all councillors on 31 December. <i>Bydd grŵp lleol y llifogydd yn cyfarfod cyn bo hir.</i> The local flood working group will meet shortly.
219	Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner: <i>Cylchlythyr / Newsletter 2019.</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 31 Rhagfyr.</i> Forwarded to all councillors on 31 December.
220	Ms Janet Barber: <i>Ymateb i lythyr y cyngor.</i> Response regarding the council response to the malfunctioning light in Cnwcydintir Lane.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 6 Rhagfyr.</i> Forwarded to all councillors on 6 December. <i>Gweler eitem / See item 9(c)(i)</i>
221	Mr Wynne Evans: <i>Awgrymiadau ynglŷn â'r llanw i greu trydan cynaliadwy.</i> Suggestions regarding the use of the tide to generate sustainable electricity.	<i>Cytunwyd sefydlu grŵp gweithiol o fewn cyngor y dref gyda'r Cyng. Clive Davies, Richard Jones, Elaine Evans a Morvenna Richards yn aelodau.</i> It was agreed to establish a working group within the council with the above-named members. Application to be made for a feasibility study grant.
222	Gŵyl Fawr Aberteifi: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial aid.	<i>Caiff ei drafod yng nghyfarfod Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Mawrth.</i> The application will be discussed at the March Grants Sub-committee.
223	<i>Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 2020 (Sir Ddinbych):</i> <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial aid.	<i>Caiff ei drafod yng nghyfarfod Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Mawrth.</i> The application will be discussed at the March Grants Sub-committee.
224	M Jean-Jacques Faucher (Maer/Mayor of Brioude): <i>Cyfarchion y Flwyddyn Newydd / New Year greeting.</i>	<i>Nodwyd.</i> Noted.
225	Hans Feil (Ester Burgermeister) Laufen: <i>Cyfarchion yr Ŵyl / Season's greeting.</i>	<i>Nodwyd.</i> Noted.
226	<i>Un Llais Cymru: Gwahoddiad i'r Maer am gynnig ei henw i'w gynnwys mewn rhestr o enwau a dynnir ar gyfer Garddwest Palas Buckingham.</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r Maer ar 3 Ionawr.</i> Forwarded to the Mayor on 3 January. <i>Penderfynodd y Maer wrthod y gwahoddiad.</i>

	One Voice Wales: Invitation to the Mayor for her name to be entered into the draw for the Buckingham Palace Garden Party (12/19/27 May 2020).	The Mayor wished to decline the invitation.
227	Ms Ann Barlow (Proprietor of Crafters Cwtch): <i>Cwynion am broblem y colomennod /</i> Complaint regarding roosting pigeons.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 7 Ionawr.</i> Forwarded to all councillors on 7 January. <i>Cytunwyd cysylltu gyda chwmni "IPC Pest Control" am gyngor a hefyd adran amgylcheddol y cyngor sir.</i> It was agreed to request information from IPC Pest Control and also the environmental department of the county council.
228	Mrs Maggie Wilson: <i>Llythyr yn cefnogi cais cynllunio.</i> Letter supporting the Glebelands Market Garden Ltd planning application.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 7 Ionawr.</i> Forwarded to all councillors on 7 January. The planning control department of the county council is presently dealing with the conditions imposed. It is generally hoped that a compromise can be reached between conflicting parties.
229	Ysgol Gynradd Aberteifi: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 7 Ionawr.</i> Forwarded to all councillors on 7 January. <i>Caiff y cais ei drafod yng nghyfarfod y Gyllideb ar 14 Ionawr.</i> The application to be discussed at the Budget meeting on 14 January.
230	<i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Celebration of 75 Years of D-Day Landings (1944).</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 7 Ionawr.</i> Forwarded to all councillors on 7 January. The poster has been displayed in the notice board.

**Alan Haird:** *Swyddog Rheoli a Datblygu Prosiectau / Project Management and Development Officer*  
**Caroline Wride:** *Rheolwr Gwasanaeth Priffyrdd / Street Services Manager*  
**Dylan Jones:** *Swyddog Cynnal a Chadw Adeiladau / Building Maintenance Officer*  
**Lowri Edwards:** *Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Democrataidd / Group Manager – Democratic Services*  
**Mererid Jones:** *Ailgylchu / Recycling*  
**Cathryn Morgan:** *Cydlynnydd Teuluoedd yn Gyntaf / Families First Coordinator*  
**Meleri Richards:** *Cydlynnydd Cymunedau Gwledig / Rural Communities Coordinator*  
**Michael Smith:** *Swyddog Ymgysylltu a Chydraddoldeb / Engagement and Equalities Officer*  
**Sonia Davies:** *Cynorthwydd Personol i'r Prif Weithredwr / Personal Assistant to the Chief Executive.*

**11. Personél / Personnel: Diweddariad / Update:**

**Apwyntiad clerck/brysgyllwyr / Appointment of clerk/mace bearers.**

**12. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.**

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

**Mabwysiadu "Cylch Gorchwyl i Is-bwyllgorau"**

**Cyngorwyd y cyngor gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei Dystysgrif ac Adroddiad Archwylid i sicrhau bod y cyngor yn y dyfodol yn mabwysiadu'r ddogfen "Cylch Gorchwyl i Is-bwyllgorau".**

**Mae'r ddogfen/ddrafft wedi ei blaenyrru i'r cyngorwyr ymlaen llaw.**

Adoption of "Terms of Reference for Sub-committees".

The council has been advised by the Auditor General for Wales in his Wales Audit Certificate and Report that in future years the council should ensure that Terms of Reference are in place for each committee.

The draft document has been forwarded to members in advance.

**Cymeradwywyd bod y cyngor yn derbyn y Cylch Gorchwyl i Is-bwyllgorau: Cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis; eiliwyd gan y Cyng. Debra Griffiths.**

The council approved the Terms of Reference for Sub-committees: Proposed by Cllr John Adams-Lewis; seconded by Cllr Debra Griffiths.

**13. Datganiad chwarterol gan y Maer am ddiogelwch cadwyni'r cyngor.**

Quarterly statement by Mayor regarding safeguarding chains of office.

**Sicrhaodd y Maer bod y ddwy gadwyn yn ddiogel.**

The Mayor confirmed that both chains were in safe custody.

**14. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.**  
Any Other Business at the discretion of the Mayor.

(a) **Y Cyng. / Cllr Clive Davies:**

(i) **Cyfraniad tuag at Orymdaith Gŵyl Ddewi 2020.**

Contribution towards the St Davids Day Parade 2020.

**Cynigiwyd gan y Cyng. Clive Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Trystan Phillips bod y cyngor yn clustnodi £500 o'r gyllideb (Categori D13: Gweithgareddau'r Gaeaf).**

It was proposed by Cllr Clive Davies and seconded by Cllr Trystan Phillips that the council earmarks £500 from the current budget (Category D13: Winter Events).

(ii) **Mae Grŵp Gwau Aberteifi yn bwriadu cynhyrchu 2020 o eitemau i blant/ffoaduriaid yn ystod 2020.**

Cardigan Knitting Group aim to knit 2020 items for child refugees during 2020.

(iii) **Trafodaethau i efeillio gyda thref Dingle yn Iwerddon.**

Discussions regarding twinning with Dingle in Ireland.

**Cytunwyd gydag awgrym y Cyng. John Adams-Lewis i alw cyfarfod cyhoeddus er mwyn mesur y diddordeb lleol o greu pwyllgor gefeillio.**

It was agreed with Cllr John Adams-Lewis' recommendation to call a public meeting to evaluate the local interest in forming a twinning committee.

(b) **Y Cyng. / Cllr Elaine Evans:**

(i) **Ymosodiad difrifol ar fachgen ifanc yng nghanol y dref, nos Sadwrn,**

**30 Tachwedd.** Serious assault on a local young man in Cardigan town centre on Saturday, 30 November.

**Clywyd hanesion erchyll gan aelodau am brofiadau o ymosod ar fechgyn ifainc ar hyd strydoedd Aberteifi, yn enwedig o fewn cyrraedd i ganol y dref.**

**Cytunwyd anfon llythyron at berchennog clwb canol dref, Comisiynydd Heddlu a Throsedd, adran drwyddedu'r cyngor sir a'r heddlu lleol gan glustnodi'r pryderon.**

Members related experiences of serious assaults committed on the streets of Cardigan on young men primarily as they exited from a mid-town establishment. It was agreed to forward a letter of concern to the owner of the business, the Police and Crime Commissioner, the licensing department of the county council and the local police highlighting the seriousness of the situation.

(ii) **Cyflwr wyneb y ffordd ger Llety Teifi, Pendre.**

Condition of the road surface alongside Llety Teifi, Pendre.

**Cytunodd y Cyng. Evans anfon copi o'r fideo ymlaen yn dangos effaith y dŵr ar gerddwyr yn y man a'r lle hwn er mwyn ei anfon ymlaen at adran briffyrdd y cyngor sir.**

Cllr Evans agreed to forward a relevant video of the splashback suffered by pedestrians at this point to the highways department of the county council.

(iii) **Ymwybyddiaeth am Awtistiaeth: cofrestru ar-lein.**

Autism Awareness: on-line registration.

(c) **Y Clerc / The Clerk:**

(i) **Cais i waredu hen ddogfennau'r banc, megis llyfrau siec, ayyb.**

Application to dispose and shred old bank documents, i.e. old cheque book counterfoils and pay-cheques.

**Cytunwyd i'r clerwr waredu'r hen ddogfennau uchod yn ddiogel.**

It was agreed for the clerk to dispose of the mentioned documents safely.

***Oherwydd natur gyfrinachol y busnes oedd i'w drafod, gwaherddwyd y wasg, a thrafodwyd eitem 10 Gohebiaeth [227] a 11 Personél mewn pwyllgor. Cynigiwyd yr uchod gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Clive Davies.***

*In view of the confidential nature of the business to be transacted, the press, etc., were excluded and the council discussed item 10 Correspondence [227] and 11 Personnel in committee. The above was proposed by Cllr John Adams-Lewis and seconded by Cllr Clive Davies.*

***Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.52yh***  
***There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 7.52pm.***

Arwyddwyd/Signed ..... (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date .....